Teitl y Swydd: Trysorydd Anrhydeddus (Cynghorol, Heb fod yn Ymddiriedolwr)

Cytundeb: Cyfnod penodol o 12 mis; gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn
Oriau: Tua 2 ddiwrnod y mis, gan gynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd ymddiriedolwyr, cyfarfodydd y pwyllgor cyllid a gwaith paratoi
Lleoliad: Hybrid
Tâl: £350.00 y dydd ac ad-dalu treuliau cymeradwyol
Yn adrodd i: Bwrdd yr Ymddiriedolwyr – rôl gynghorol, heb fod yn ymddiriedolwr

## Ynglŷn â Chymdeithas Elusennol Ynys Môn

Rydym yn elusen grantiau sy'n seiliedig ar le, wedi ymrwymo i wella iechyd, llesiant a'r amgylchedd mewn cymunedau ledled Ynys Môn. Rydym yn rheoli cronfa o £26 miliwn er budd pobl yr ynys – yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – drwy ariannu prosiectau lleol a chefnogi mentrau dan arweiniad y gymuned.

## Pwrpas y Rôl

Mae'r Trysorydd Anrhydeddus yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod cyllid yr elusen yn cael ei reoli'n effeithiol, yn dryloyw, ac yn unol â'i chenhadaeth. Byddwch yn darparu cyngor ac arweiniad proffesiynol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar faterion ariannol, gan gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus a chyfrifol.

Byddwch yn helpu i gynnal cynaliadwyedd ariannol yr elusen, gyda ffocws ar ddiogelu adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Prif Gyfrifoldebau

### 1. Goruchwyliaeth a Chyflwyno Adroddiadau Ariannol

- Sicrhau bod gan y Bwrdd ddealltwriaeth glir o sefyllfa ariannol yr elusen bob amser.
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau amserol a chlir i'r ymddiriedolwyr, gan egluro gwybodaeth ariannol mewn iaith hygyrch.
- Dadansoddi cyllidebau, cyfrifon rheoli, cronfeydd wrth gefn a pherfformiad buddsoddi, gan amlygu tueddiadau a risgiau.
- Cyfrannu at ddatblygu polisïau a rheolaethau ariannol i ddiogelu asedau'r elusen a sicrhau'r budd mwyaf i'r gymuned.

2. Cydymffurfiaeth a Rheoli Risg

- Gweithio'n agos gyda'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr i sicrhau bod trefniadau ariannol yn cydymffurfio â chyfraith elusennau, safonau cyfrifyddu (SORP) a gofynion y Comisiwn Elusennau.
- Cynghori ar oblygiadau ariannol penderfyniadau strategol, gan gydbwyso cyfleoedd a risgiau.
- Goruchwylio risgiau ariannol, gan gynnwys anwadalrwydd buddsoddi a phwysau cyllido, a gweithio gyda rheolwyr buddsoddi i'w lliniaru.

3. Cyllidebu a Chynllunio Ariannol

- Cyfrannu at lunio'r gyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol tymor hwy.
- Sicrhau bod cyllidebau'n adlewyrchu incwm a gwariant realistig ac yn cydbwyso uchelgais â chynaliadwyedd.
- Monitro cynnydd drwy gydol y flwyddyn, gan nodi amrywiadau'n gynnar a chynghori ar gamau cywiro.

4. Cyllid Moesegol a Chynhwysol

- Sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn adlewyrchu gwerthoedd yr elusen yn ogystal â chanlyniadau ariannol.
- Ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn dyrannu adnoddau a chyllidebu.
- Cynghori ar fuddsoddi moesegol er mwyn sicrhau bod cronfeydd yn cael eu defnyddio'n gyfrifol ac yn unol â chenhadaeth ac ymrwymiadau amgylcheddol yr elusen.

5. Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- Gweithredu fel pont rhwng agweddau technegol cyllid a realiti ymarferol llywodraethu elusennol.
- Esbonio materion ariannol cymhleth yn glir ac yn hygyrch.
- Cynrychioli'r elusen mewn materion ariannol, gan gynnwys cyfarfodydd ag archwilwyr a rheolwyr buddsoddi.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Cymhwyster ariannol proffesiynol cydnabyddedig (e.e. ACA, ACCA, CIMA) neu brofiad ariannol lefel uwch cyfatebol.
- Dealltwriaeth o gyllid elusennol, gan gynnwys SORP, llywodraethu a gofynion y Comisiwn Elusennau.
- Y gallu i ddadansoddi a dehongli gwybodaeth ariannol a'i chyflwyno'n glir ac yn hygyrch i gynulleidfaoedd nad ydynt yn arbenigol.
- Ymrwymiad gwirioneddol i genhadaeth Cymdeithas Elusennol Ynys Môn ac i Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, agoredrwydd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.
- Sgiliau cydweithredol, gyda'r gallu i weithio'n adeiladol fel rhan o dîm, herio a chael eich herio'n barchus, a meithrin perthnasoedd cadarnhaol gydag ymddiriedolwyr, staff a phartneriaid.

Dymunol

- Profiad o roi grantiau neu reoli cronfeydd cyfyngedig.
- Gwybodaeth am egwyddorion buddsoddi moesegol a rheoli ariannol cyfrifol, yn ddelfrydol wedi'u cymhwyso'n ymarferol.
- Dealltwriaeth o gyd-destun cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Ynys Môn, drwy gysylltiad personol, profiad byw neu ymgysylltiad proffesiynol.

Beth a Gynigiwn

- Gweithio hybrid a hyblyg i gefnogi cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.
- Cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Y cyfle i wneud gwahaniaeth ystyrlon i gymunedau ledled Ynys Môn.
- Profiad o weithio ochr yn ochr â Bwrdd Ymddiriedolwyr ymroddedig.
- Amgylchedd gwaith cynhwysol, cefnogol a chyfeillgar.
- Ad-dalu treuliau teithio sy'n gysylltiedig â'r rôl.

Rydym yn croesawu ceisiadau'n gynnes gan bobl sydd wedi'u tangynrychioli yn y sectorau elusennol a grantiau.

## Sut i Wneud Cais

I wneud cais, cyflwynwch CV cyfredol ynghyd â llythyr eglurhaol (dim mwy na dwy dudalen) yn esbonio pam rydych yn ymddiddori yn y rôl a sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn bodloni gofynion y swydd. Dylid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost i post@elusennol.org erbyn 21:00 ar 06 Ebrill 2026. Croesewir ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Os oes angen fformat cais amgen neu unrhyw addasiadau rhesymol fel rhan o'r broses recriwtio, cysylltwch â post@elusennol.org a byddwn yn hapus i drafod sut y gallwn eich cefnogi.